Rhif: WG30911

Llywodraeth Cymru

Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Canllawiau'r Rhaglen Cefnogi Pobl

Mawrth 2018

© Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-78937-091-1

**Cyflwyniad**

Cafodd y Canllawiau Cefnogi Pobl eu datblygu yn 2012 a’u diwygio yn 2013 yn dilyn argymhelliad gan Syr Mansell Aylward i uno dwy ffrwd gyllido a chreu Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl. Ond oherwydd newidiadau ym maes deddfwriaeth ac mewn meysydd eraill cytunwyd â rhanddeiliaid ei bod yn bryd ystyried canllawiau newydd a oedd yn adlewyrchu’n well ddull gweithredu sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, a oedd yn cynnig eglurder ynghylch nifer o faterion, ac a oedd yn cyd-fynd yn well â’r cyd-destun deddfwriaethol yng Nghymru. Cafodd y canllawiau drafft yr ymgynghorwyd yn eu cylch eu datblygu gydag ystod o randdeiliaid, yn bennaf drwy’r gweithgor Llywodraethu.

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu safbwyntiau ac adborth ynghylch y canllawiau diwygiedig arfaethedig.

**Yr ymgynghoriad**

Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal rhwng 15 Mai 2017 a 4 Awst 2017. Cafodd fersiynau ar-lein o’r ddogfen ymgynghori a’r ffurflenni ymateb eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cafodd 10 cwestiwn eu gofyn yn y ddogfen a daeth 58 o ymatebion i law, ond ni chafodd pob un o’r cwestiynau eu hateb gan bob un o’r ymatebwyr. Mae’r rhestr o ymatebwyr i’w gweld isod ac mae’n cynnwys awdurdodau lleol, mudiadau yn y trydydd sector, a sefydliadau ambarél.

Yn ogystal cynhaliwyd gweithdy yn ystod yr ymgynghoriad, ac mae’r ddogfen hon yn cynnwys ymatebion a sylwadau o drafodaethau’r gweithdy hwnnw hefyd.

**Yr ymatebwyr**

| **Y sawl a ymatebodd i’r ddogfen ymgynghori** | |
|---|---|
| Cymorth i Ferched Abertawe<br>Cymdeithas Gofal Sir Benfro<br>Age Cymru<br>Dinas a Sir Abertawe<br>Barnardo’s<br>Mirus Wales<br>Cadwyn<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>The Wallich<br>Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam<br>Byddin yr Iachawdwriaeth<br>Clwyd Alyn<br>Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol Gwent<br>Cartrefi Cymunedol Cymru<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Cymorth i Ferched Cymru<br>Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol y Fro a Chaerdydd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>Trivallis | Sefydliad Tai Siartredig Cymru<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful<br>Cyngor Sir Gâr<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Tai Pawb<br>Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth<br>Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf<br>Cyngor Trydydd Sector Caerdydd<br>Shelter Cymru<br>Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr<br>Grŵp Cynllunio Lleol Cefnogi Pobl Torfaen<br>Cymorth Cymru<br>Mind Torfaen a Blaenau Gwent<br>Gofal Cymdeithasol Cymru<br>Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br>Darparwyr Cefnogi Pobl Rhondda Cynon Taf |

| | |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd<br>Drive<br>Gweithredu dros Blant<br>Llamau<br>Cyngor Sir Fynwy | Cymorth Hafod<br>Cyngor Sir Powys<br>Cwm Taf<br>Cartrefi Dinas Casnewydd<br>Nigel Stannard<br>The Hollies<br>Tai Wales & West |
| Cawsom 10 ymateb gan bobl/sefydliadau/mudiadau a oedd am aros yn ddienw | |
| | |
| **Y sawl a fynychodd y gweithdy** | |
| Cyngor Dinas Casnewydd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen<br>Cefnogi Pobl Gwent<br>Tai Merthyr<br>Cyngor Sir Fynwy<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol y Fro a Chaerdydd<br>Cyngor Bro Morgannwg<br>Tai Pawb<br>Hafal<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cefnogi Pobl Cwm Taf<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful<br>Llamau | Hafan Cymru<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>Cymorth Cymru<br>Mind Torfaen a Blaenau Gwent<br>Cymorth i Ferched Cymru<br>Cyngor Sir Gâr<br>Tîm Cefnogi Pobl Ceredigion<br>Digartref Cyf.<br>Tai Wales & West<br>Cartrefi Conwy<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>Tai Canolbarth Cymru<br>CAIS<br>Llamau<br>Tîm Cefnogi Pobl Blaenau Gwent |

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r prif ymatebion a gafwyd i gwestiynau'r ymgynghoriad. Bydd angen rhoi ystyriaeth fanylach i'r ymatebion a roddwyd, a fydd yn rhan o waith pellach i ddatblygu'r Canllawiau Cefnogi Pobl. Lle bo modd nid yw sylwadau tebyg i'w gilydd wedi cael eu hailadrodd ac maent wedi'u cynnwys dan un cwestiwn yn unig, ond ceir awgrymiadau isod ynghylch nifer o themâu allweddol sy'n tynnu sylw at feysydd lle cafwyd sylwadau tebyg.

Er bod y cwestiynau'n gofyn am ateb cadarnhaol neu negyddol pendant, dylid nodi na roddodd yr ymatebwyr atebion pendant yn aml a'u bod wedi darparu naratif. Nid oedd rhai o'r ymatebion a gafwyd yn canolbwyntio ar y cwestiynau; yn hytrach roeddent yn ymateb yn fwy cyffredinol i'r Rhaglen Cefnogi Pobl a/neu'r canllawiau. Yn ôl y disgwyl, mae'r ymatebion yn adlewyrchu nid yn unig amrywiaeth y Rhaglen Cefnogi Pobl a'i rhanddeiliaid ond hefyd brwdfrydedd y rhanddeiliaid ynghylch helpu i ddylanwadu ar y dyfodol. Ni fydd y crynodeb hwn yn ceisio ymateb i'r sylwadau a ddarparwyd; yn hytrach bydd yn crynhoi'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion i bob cwestiwn.

At hynny, mae'r sylwadau a gafwyd yn y digwyddiad ymgynghori wedi'u hychwanegu os nad ymdriniwyd â nhw yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Themâu allweddol**


Roedd yr ymatebion a gafwyd yn adlewyrchu nifer o themâu allweddol a gaiff eu crynhoi isod.

- Cymhwystra – nid yw'n ddigon clir i'r sawl nad ydynt yn gallu cael cymorth o bwrs y wlad.
- Y term 'Cysylltiad Lleol' – mae angen mwy o eglurder er mwyn sicrhau cysondeb o ran gweithredu.
- Ymyriadau byrdymor – cafodd pwyslais ar ymyriadau byrdymor ei groesawu'n gyffredinol, ond gofynnwyd am fwy o eglurder ynghylch beth y mae ymyriadau byrdymor yn ei olygu, beth yw eu hyd a sut y mae darparu tystiolaeth ar eu cyfer.
- Cydraddoldeb – cafodd y gofyniad i gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yng nghyswllt penderfyniadau cyllido ei groesawu'n gyffredinol, ond teimlai rhai y gallai'r canllawiau fynd ymhellach o safbwynt y modd y maent yn ystyried ac yn hyrwyddo Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Ceir pryderon ynghylch arferion caffael sy'n amrywio ledled Cymru, yr angen i sicrhau cysondeb â rheoliadau caffael yr UE, a chanllawiau sy'n rhoi i awdurdodau lleol yr adnoddau y mae arnynt eu hangen i gaffael/comisiynu gwasanaethau fel y bo angen ac mewn modd cyson.
- Cafwyd sawl sylw ynghylch y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â chyllidebau blynyddol, ac awgrymwyd y dylid newid i gyllidebau 3 blynedd.
- Canllawiau i nodi sut y bydd y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn cysylltu â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus/yn adrodd iddynt. At hynny, mae angen i Lywodraeth Cymru weithredu'n fwy cadarn o safbwynt sicrhau bod y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn annog arloesi ac yn gwneud yr hyn y bwriadwyd iddynt ei wneud.
- Yr angen i ystyried sut y byddai gwaith comisiynu yn y dyfodol yn cyd-fynd â dyletswyddau newydd dan Ddeddfau eraill, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Fodd bynnag, ar ben hynny roedd rhywfaint o bryder ynghylch gallu timau Cefnogi Pobl i ymateb i restr fwyfwy maith o ddyletswyddau dan bob un o'r Deddfau dan sylw, ac unrhyw Ddeddfau newydd a allai ymddangos yn y dyfodol.

**Ymatebion i gwestiynau unigol yr ymgynghoriad**

**1. A yw'r Canllawiau drafft yn canolbwyntio'n briodol ar unigolion ac a yw'r meini prawf cymhwystra'n eglur? Rhowch reswm dros eich ateb.**

O'r ymatebion a ddaeth i law cafwyd ymateb cadarnhaol gan 28 o bobl, cafwyd ymateb negyddol gan 11, a nododd 5 naill 'Ydynt' a 'Nac ydynt' neu 'Ydynt' mewn mannau.



Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau'n canolbwyntio ar yr unigolyn a bod y meini prawf cymhwystra'n eglur, ond cafodd nifer o awgrymiadau a themâu cyffredin eu cyflwyno ynghylch sut y gellid gwella'r canllawiau a ble y mae angen mwy o eglurder, yn enwedig ynglŷn â chymhwystra i gael arian o bwrs y wlad ac ynglŷn â'r meini prawf ynghylch 'cysylltiad lleol'.

Dyma'r prif sylwadau/awgrymiadau ynghylch gwella a gafwyd:

- Byddai'r canllawiau yn canolbwyntio'n fwy priodol ar yr unigolyn pe baent yn pwysleisio'r angen i ddarganfod beth sy'n bwysig, a chyflawni'r hyn sy'n bwysig, i bob unigolyn agored i niwed fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, gyda deilliannau canlyniadol i fesur effaith.
- Cafwyd sylwadau ynghylch y ffaith bod y term 'cysylltiad lleol' a'r meini prawf cymhwystra perthnasol yn cael eu dehongli'n wahanol mewn gwahanol awdurdodau lleol, yn dibynnu ar y tîm comisiynu. Mae angen i ganllawiau ynghylch y mater hwn fod yn fwy eglur er mwyn sicrhau nad yw awdurdodau lleol yn gweithredu'n wahanol o'r naill sir i'r llall. Yn benodol, mynegwyd pryder ynghylch y sawl a oedd yn geiswyr lloches neu'n ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Dywedodd un o'r ymatebwyr nad oedd y meini prawf ynghylch cysylltiad lleol yn briodol ar gyfer gwasanaethau cymorth a ddarperir mewn lloches a gwasanaethau llety eraill sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn ogystal, holodd eraill a oedd y rheolau ynghylch cysylltiad lleol yn berthnasol i'r Rhaglen Cefnogi Pobl.
- Yn adran 2.5 mae'r canllawiau drafft yn nodi fel a ganlyn: 'Mae unrhyw bobl ac arnynt angen cymorth sy'n gysylltiedig â thai'n gymwys i gael cymorth sy'n gysylltiedig â thai cyn belled â'u bod yn gymwys i gael arian o bwrs y wlad.' Nodwyd nad oedd y datganiad hwn wedi'i gynnwys yn y canllawiau blaenorol, a gofynnodd nifer sylweddol o ymatebwyr am ganllawiau/eglurder ynghylch beth y mae hynny'n ei olygu a sut y gellir helpu'r sawl nad ydynt yn gallu cael cymorth o bwrs y wlad, ee y sawl sy'n dechrau defnyddio gwasanaethau cam-drin domestig, ceiswyr lloches a'r sawl sy'n cysgu allan. Nododd Cymorth i Ferched Cymru ei fod yn gwrthwynebu'n gryf y datganiad bod Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn 'gronfa gyhoeddus' dan reolau mewnfudo.
- Gofynnwyd am fwy o eglurder ynghylch cymhwystra ar gyfer y sawl sy'n gadael gofal, plant a phobl ifanc, pobl ag anghenion cymhleth, ceiswyr lloches, pobl hŷn nad ydynt yn cael budd-daliadau a phobl sydd wedi'u cofrestru dan adran 117 y Ddeddf Iechyd Meddwl, a chymorth dilynol ar gyfer y sawl sy'n ymadael â gwasanaethau.
- Roedd angen eglurder a/neu ddiffiniadau ar gyfer y termau canlynol: cymorth emosiynol; gwasanaethau gofal neu gymorth domestig; gweithgareddau arbennig; a thasgau rheoli tai (sut y maent yn wahanol i gymorth sy'n gysylltiedig â thai).
- Cafwyd safbwyntiau croes i'w gilydd ymhlith yr ymatebwyr ynghylch y pwyslais a roddir yn y canllawiau ar ymyriadau byrdymor. Er mai'r farn gyffredinol oedd ei bod yn fanteisiol cydnabod gwerth ymyriadau byrdymor, roedd pryder na fyddai'r angen am wasanaethau tymor canolig i hir, yn enwedig yng nghyswllt pobl ifanc, yn cael ei gydnabod. Yn ogystal, nododd Llamau ei fod yn pryderu y gallai'r ymgyrch i ddarparu cymorth tymor byrrach greu cylch dieflig. Yn ogystal, gofynnwyd am fwy o eglurder ynghylch beth yw 'ymyriad byrdymor', beth yw ei hyd a sut y bydd darparwyr gwasanaeth yn dangos beth sydd wedi'i wneud/wedi'i gyflawni gan y cleient.
- Roedd pryderion am ddiffyg canllawiau ynghylch pobl hŷn ac ynghylch anableddau dysgu, ac awgrymodd yr ymatebwyr y dylid cael mwy o fanylion ynghylch sut y gellid rheoli'r agwedd hon ar y Rhaglen Cefnogi Pobl. Roedd rhai'n teimlo ei bod yn

ymddangos bod yna awgrym na fyddai'r rhaglen yn cynnwys unigolion ag anabledd dysgu neu bobl hŷn yn y dyfodol, yn enwedig os yw'r unigolyn mewn llety.


- Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r ymrwymiad i annog ymgysylltu gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Ond roedd pryderon ynghylch sut y gellid ariannu hynny a pha hyfforddiant ac arweiniad a allai fod ar gael i ddarparwyr er mwyn eu helpu gyda'r agweddau ymarferol ar hynny. Yn ogystal, cafwyd sylwadau ynghylch yr angen i ddefnyddwyr gwasanaeth fod yn aelodau o Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, neu'r angen iddynt ymwneud yn fwy helaeth â nhw. Nododd Cymorth i Ferched Cymru fod angen canllawiau eglur ynghylch yr hyn sy'n ofynnol a'r hyn a ddisgwylir gan awdurdodau lleol a Phwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, er mwyn mynd i'r afael â ffactorau sy'n rhwystro defnyddwyr gwasanaeth rhag ymwneud â'r gwaith o gomisiynu a datblygu gwasanaethau.
- Roedd nifer o'r ymatebion yn cytuno bod angen i 'sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth' gael eu cynnwys ymhlith y pethau a all fod yn gymwys ar gyfer cyllid yn un o wasanaethau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl (gweler adran 2.6.5). Awgrymwyd y dylid cynnwys gwirfoddoli hefyd.
- Mae'r canllawiau yn cyfeirio at byrth ond nid ydynt yn nodi a oes modd i'r rhain gael eu hariannu drwy'r grant.
- Awgrymwyd bod angen ehangu cymhwystra fel ei fod yn cynnwys nid yn unig y sawl y bernir eu bod 'mewn angen' ond hefyd y sawl 'y mae risg y byddant mewn angen'. Nododd rhywun arall y dylai cymhwystra i gael gwasanaethau fod yn seiliedig ar angen 'a aseswyd' am gymorth sy'n gysylltiedig â thai, ac nid ar angen yn unig. Fodd bynnag, mynegwyd pryder y gallai cymorth a gaiff ei flaenoriaethu ar sail angen danseilio'r dull gweithredu ataliol ac arwain at ffocws ar y sawl sydd mewn argyfwng.
- Awgrymodd sawl un o'r ymatebwyr y dylid adolygu'r ddogfen er mwyn sicrhau bod y derminoleg a ddefnyddir yn niwtral o ran deiliadaeth, hy er mwyn cynnwys perchen-feddianwyr ac eraill nad oes ganddynt denantiaeth efallai, ee y sawl sy'n byw mewn carafán ac ati.

**Sylwadau a gafwyd yn y digwyddiad ymgynghori**

- Gallai'r cysylltiadau â digartrefedd a'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi fod yn fwy eglur.
- A ellid cael deilliant ynghylch sut y mae Cefnogi Pobl wedi atal Dyletswydd Statudol?

**2. A yw'r Canllawiau drafft yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb ar draws y broses o ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau? Os nad ydynt, pam?**

O'r ymatebion a ddaeth i law cafwyd ymateb cadarnhaol gan 29 o bobl a chafwyd ymateb negyddol gan 12.




Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau'n cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb ar draws y broses o ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau, ac yn


benodol roeddent yn croesawu'r ffaith bod gofynion wedi'u cynnwys sy'n mynnu bod penderfyniadau cyllido'n destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Fodd bynnag, teimlai nifer o'r ymatebwyr fod angen i'r canllawiau gael eu cryfhau a nodwyd y themâu allweddol canlynol:

- Roedd pryderon ynghylch y costau a'r trefniadau ar gyfer cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, nid yn unig rhwng y Saesneg a'r Gymraeg ond hefyd yng nghyswllt nifer o ieithoedd eraill, er mwyn galluogi pobl i gyfathrebu a chael mynediad i wasanaethau cymorth.
- Nododd Cyngor Abertawe fod cam-drin domestig yn effeithio ar ddynion a menywod ond bod llawer o wasanaethau cam-drin domestig yn dal i ganolbwyntio ar wasanaethau i fenywod yn unig. Efallai fod angen i'r canllawiau gyfeirio'n benodol at yr angen i beidio â sôn am rywedd wrth sicrhau bod gwasanaethau ar gael mewn ardal.
- Roedd llawer yn croesawu'r gofyniad i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ond roeddent yn pryderu a fyddent yn cael eu cwblhau'n briodol ac yn effeithiol. Byddai cael rhagor o ganllawiau ynghylch hynny'n ddefnyddiol felly. Yn ogystal, dywedodd un o'r ymatebwyr mai prin oedd y cyfeiriadau yn y canllawiau at gydraddoldebau neu at Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac y dylai Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gael eu hymestyn i ragor o feysydd, ee datblygiadau newydd arfaethedig, gwaith ailfodelu, lleihau neu uno gwasanaethau.
- Nododd Cyngor Trydydd Sector Caerdydd fod y canllawiau drafft yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb ond y gallent fod yn fwy cadarn. Er enghraifft, nid yw rolau penodol y cyrff neu'r personél, a ddisgrifir yn y canllawiau, yn cyfeirio at oruchwylio'n barhaus yr angen i sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth neu sicrhau gwaith cyflawni cyson ar sail y gwerthoedd a nodir ar dudalen 9 (adran 1.3).
- Nododd nifer o'r ymatebwyr y diffyg manylder neu'r diffyg cyfeiriad yn y canllawiau at y categorïau canlynol o gleientiaid: pobl hŷn; pobl ag anableddau dysgu y mae angen cymorth hirdymor arnynt; pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol a'u cymunedau; a phobl sy'n dymuno cael swyddi llawn amser ond sydd efallai'n methu â symud i denantiaethau preifat yn syth.
- Nododd sawl ymateb yr angen am ragor o wybodaeth ac arweiniad ynghylch ymgysylltu â gwasanaethau a datblygu gwasanaethau ar gyfer grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau ar y cyrion, gan ddweud y byddent yn croesawu dull mwy cydgysylltiedig o weithredu o safbwynt cysylltiadau â deddfwriaeth a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru ynghyd â chyfleoedd i gomisiynu ar y cyd a datblygu gwasanaethau ar y cyd. Awgrymwyd y byddai cynnwys rhai modelau arfer da yn y ddogfen yn ddefnyddiol er mwyn deall sut y mae awdurdodau lleol eraill wedi cyflwyno dull cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau teg.
- Mae'r canllawiau yn darparu fframwaith a throsolwg o egwyddorion arfer da wrth gomisiynu gwasanaethau sy'n hybu cydraddoldeb, ond mynegwyd sawl pryder ynghylch sut y mae'r canllawiau yn cyd-fynd â rheolau a phrosesau caffael awdurdodau lleol, ee y gofyniad y dylid ystyried yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth mewn trefniadau aildendro.
- Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr unwaith eto at y ffaith bod y meini prawf cymhwystra sy'n ymwneud â phwrs y wlad a chysylltiad lleol wedi'u cynnwys, oherwydd gallent roi rhai grwpiau agored i niwed dan anfantais. Gofynnodd un o'r ymatebwyr am sicrwydd bod y meini prawf wedi bod yn destun Asesiad priodol o'r Effaith ar Gydraddoldeb, cyn bod cyfeiriad yn cael ei gynnwys yn rhan o'r meini prawf cymhwystra.

- Nododd Cyngor Trydydd Sector Caerdydd nad oes dim byd amlwg yn y canllawiau ynghylch y sawl sydd â nam gwybyddol, nad ydynt yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch recriwtio staff, ee y sawl sydd ag anableddau dysgu difrifol neu'r sawl sy'n byw gyda dementia (gweler 2.2.1).

**3. A yw'r Canllawiau drafft yn darparu fframwaith comisiynu eglur ar gyfer comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl? Rhowch reswm dros eich ateb.**

O'r ymatebion a ddaeth i law cafwyd ymateb cadarnhaol gan 25 o bobl, cafwyd ymateb negyddol gan 10, a nododd 4 'Ydynt' a 'Nac ydynt' neu 'Ydynt' mewn mannau.




Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno eu bod yn darparu fframwaith eglur ar gyfer comisiynwyr a darparwyr gwasanaeth, ond dywedodd rhai bod modd dehongli'r canllawiau mewn mwy nag un ffordd a'u bod yn cynnwys cyngor anghyson, yn enwedig ynghylch aildendro, datgomisiynu gwasanaethau, a chyfrifoldebau gwahanol rolau/cyrff. Teimlid hefyd na fyddai comisiynwyr yn defnyddio'r fframwaith mewn modd cyson, a gofynnwyd am sicrwydd ynghylch pa fesurau fydd yn cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y fframwaith yn cael ei weithredu'n gyson.

Dyma'r prif sylwadau/awgrymiadau ynghylch gwella a gafwyd:

- Byddai'n ddefnyddiol cael strategaeth gaffael genedlaethol i helpu gyda chysondeb ar draws awdurdodau lleol a helpu darparwyr ar raddfa fawr sy'n gweithio mewn sawl ardal.
- Nid yw'r canllawiau yn pwysleisio'n hollol bod yn rhaid i awdurdodau lleol lynu wrth eu rheolau a'u gweithdrefnau eu hunain ynghylch caffael contractau, ac mae angen i hynny gael ei adlewyrchu yn y canllawiau. Nid yw chwaith yn glir yn y canllawiau bod rheolau caffael yr UE yn dal yn berthnasol.
- Mae'r canllawiau yn eu gwrth-ddweud eu hunain wrth sôn am adolygiadau strategol, ac mae angen mwy o eglurder/arweiniad ynghylch pryd y mae adolygiad strategol yn ofynnol, pryd y byddai'n arwain at ymarfer aildendro a beth fyddai ei ffurf. Byddai templed safonol i'w lenwi yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau lleol.
- Roedd pryderon ynghylch adran 4.10 ac ynghylch y ffaith mai mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu a ddylid codi tâl am wasanaethau ai peidio. Roedd rhai'n teimlo y dylid tynnu'r elfen hon allan o'r canllawiau ac na ddylid codi tâl am wasanaethau. Byddai Gweithredu dros Blant yn anghytuno'n llwyr ag unrhyw gynigion i godi tâl am wasanaethau Cefnogi Pobl.


- Mynegodd Cymorth Cymru bryder ynghylch adran 4.8.1 ar Ddatblygu Gwasanaethau a Chonsortia Rhanbarthol, a dywedodd fod angen i'r canllawiau fod yn glir iawn ynghylch anfanteision gweithio ar sail consortia, yn ogystal â'r manteision posibl.
- Nododd Cymorth i Ferched Cymru fod gwasanaethau arbenigol Cymorth i Ferched a gwasanaethau arbenigol sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Cymru wedi cyfrannu at lunio pecyn cymorth comisiynu sydd wedi cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau comisiynu statudol ar gyfer gwasanaethau sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; bydd angen i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, lynu wrth y canllawiau hynny yn rhan o'u dyletswyddau dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Roedd Cymorth i Ferched Cymru yn argymell bod angen i'r fframwaith comisiynu gynnwys cyfarwyddyd penodol i Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ac awdurdodau lleol ddilyn y pecyn cymorth comisiynu ar gyfer gwasanaethau sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac unrhyw ganllawiau statudol atodol pan gânt eu cyhoeddi.
- Mae canllawiau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn awgrymu cydweithredu ar draws themâu strategol wrth gomisiynu, ond nid yw'n cydnabod bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn un o'r themâu strategol hynny.

**Sylwadau a gafwyd yn y digwyddiad ymgynghori**

- Er bod y fframwaith yn eglur, a fydd yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol, oherwydd mae eu harferion caffael yn wahanol i'w gilydd?
- Pryd y mae'r 'uwch-arbenigwr' (yn achos gwasanaethau dwys) yn 'arbenigwr' a phryd y mae eraill yn norm – pawb yn ymdrin ag achosion cymhleth?
- Os caiff gwasanaethau eu hailosod ar dendr yn rheolaidd gall hynny arwain at ansefydlogrwydd, ond gallai gwahaniaethau ar draws awdurdodau lleol olygu bod y 'gystadleuaeth' i redeg gwasanaethau'n ffafrio darparwyr mwy o faint. Gallai olygu hefyd bod rhai awdurdodau lleol yn aildendro a bod rhai contractau gwasanaethau ar gael i'w hennill ond nad yw eraill yn dod ar gael, sy'n golygu y gallai rhai darparwyr golli contractau heb allu gwneud cais am rai eraill.
- A allai Llywodraeth Cymru ddod â phob tîm caffael ynghyd a chytuno ar ddull gweithredu cyffredin?
- Nid yw gweithio ar sail consortia bob amser yn rhywbeth cadarnhaol – mae'n tueddu i ffafrio sefydliadau mawr. Gallai arwain at golli arbenigeddau ar raddfa lai a chynyddu risgiau pe baech yn cael un neu ddau sefydliad mawr a allai fethu, yn hytrach na mwy o sefydliadau llai er mwyn lledaenu'r risg. Gall gymryd llawer o amser i sefydlu consortia, ac nid oes digon o amser i wneud hynny'n effeithiol yn ystod cyfnodau tendro byr awdurdodau lleol.

4. **A yw’r Canllawiau drafft yn ddigon hyblyg i roi anogaeth i arloesi a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o’r gyllideb Cefnogi Pobl? Rhowch reswm dros eich ateb**

O’r ymatebion a ddaeth i law cafwyd ymateb cadarnhaol gan 25 o bobl, cafwyd ymateb negyddol gan 9, a nododd 2 ‘Ydynt’ a ‘Nac ydynt’ neu ‘Ydynt’ yn gyffredinol.




Yn gyffredinol roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau’n ddigon hyblyg i awdurdodau lleol gomisiynu gwasanaethau arloesol gan wneud y defnydd gorau ar yr un pryd o’r gyllideb Cefnogi Pobl, yn enwedig o safbwynt lleihau’r angen am gynlluniau cymorth ar gyfer ymyriadau byrdymor. Fodd bynnag, nid oedd pawb yn cytuno. Dyma’r prif sylwadau/awgrymiadau ynghylch gwella a gafwyd:

- Mae cyllidebau blynyddol yn golygu ei bod yn anodd i awdurdodau lleol gynllunio. Byddai llawer ohonynt yn hoffi gweld cyllidebau tymor hwy (cyllidebau 3 blynedd) a fyddai’n cynorthwyo dull tymor hwy o gynllunio gwasanaethau ac a fyddai’n rhoi mwy o sefydlogrwydd a sicrwydd i’r sector.
- Roedd pryderon ynghylch ailgategoreiddio cefnogaeth benodedig a chefnogaeth fel y bo’r angen yn gefnogaeth adweithiol ac yn gefnogaeth ataliol. Teimlid y gallai hynny arwain at ddryswch ynghylch y modd y mae’r gwasanaethau hyn yn ategu ei gilydd, ond y gallai hefyd fod yn mynd yn groes i’r newid cyfeiriad ehangach sy’n ymwneud ag ymyrryd yn gynnar yng Nghymru. Yn ogystal, ceir cefnogaeth benodedig sy’n darparu gwasanaethau ataliol, a chefnogaeth fel y bo’r angen sy’n gallu bod yn adweithiol. Dywedodd y mwyafrif y dylid cadw’r termau ‘cefnogaeth fel y bo’r angen’ a ‘cefnogaeth benodedig’.
- Mae angen i’r canllawiau gynnig mwy o eglurder ynghylch sut y gellir defnyddio’r gronfa i ddarparu gwasanaethau y tu allan i’r lleoliad arferol ar gyfer tai a chymorth, gan barhau i gydymffurfio â’r meini prawf cymhwystra a nodir yn y canllawiau.
- Mae’r canllawiau yn hyrwyddo ac yn caniatáu hyblygrwydd yn y modd y caiff gwasanaethau eu datblygu a’u darparu, ee dull gweithredu Tai yn Gyntaf – dylai’r canllawiau ddangos sut y mae gwasanaethau a ariennir gan Cefnogi Pobl yn cysylltu â dulliau o’r fath ac yn eu hategu.
- Mae llawer o fiwrocratiaeth yn gysylltiedig â’r Rhaglen Cefnogi Pobl, sy’n gallu atal arloesi. Gellid lleihau biwrocratiaeth drwy gyflwyno cronfa ddata genedlaethol ar gyfer Cefnogi Pobl.
- Gellid gwella arloesi drwy ymgysylltu ymhellach â darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth ynghylch cynllunio a datblygu gwasanaethau, gan gynnwys eu cael i gyfrannu i fanylebau gwasanaethau, a digwyddiadau mapio anghenion.
- Mae angen ffocws mwy eglur ar hyblygrwydd ac arloesi yn y fframwaith, sy’n sicrhau bod gwaith atal yn waith atal gwirioneddol a’i fod yn fwy nag ymyriad adeg argyfwng. Rhaid i arloesi ganolbwyntio ar ymyrryd yn gynt. Nododd ymatebydd arall y byddai’n hoffi gweld mwy o bwyslais ar wasanaethau atal, ac ar wasanaethau sy’n gweithio gyda grwpiau penodol o gleientiaid a’r sawl sy’n gweithio gyda phobl ag anghenion lluosog a chymhleth.


- Awgrymwyd bod angen i'r iaith a ddefnyddir yn y canllawiau gael ei chryfhau fel bod arloesi'n cael ei ystyried yn un o nodweddion allweddol gweithredu'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn effeithiol, yn hytrach na'i fod yn cael ei ystyried yn rhywbeth ychwanegol neu ddymunol. At hynny, mae angen i'r canllawiau fod yn fwy eglur ynghylch annog ffyrdd newydd a gwahanol o weithio ar draws llwybrau comisiynu, sy'n ceisio sicrhau dull gweithredu mwy integredig ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ynghyd ag arloesi sy'n seiliedig ar arfer gorau.
- Roedd rhai yn croesawu lleihau'r angen am gynlluniau cymorth ar gyfer ymyriadau byrdymor, a nododd y trydydd sector y byddai hynny'n cyflymu pethau ac yn caniatáu mwy o amser i'w dreulio gyda'r cleient. Nododd Cymorth i Ferched Cymru ei bod yn bwysig sicrhau nad yw'r newid hwn yn arwain at ddiffyg asesu'n gyfan gwbl, a sicrhau na cheir llai o gyfleoedd i ddatgelu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn y sector arbenigol a'r sector tai ehangach. Dywedodd eraill fod angen i ymyriadau byrdymor gael rhyw elfen o gynllunio, hyd yn oed os nad yw hynny'n gofyn am fath traddodiadol hirdymor o gynllun cymorth. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fod angen parhau i ddarparu tystiolaeth o'r gwaith hwn a bod modd ei chasglu yn y data ynghylch deilliannau a thrwy ddefnyddio systemau monitro lleol. Mae'n bosibl na fydd y Cynllun Tai Personol bob amser yn opsiwn priodol i gofnodi'r data dan sylw, gan y bydd yn dibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir.
- Mynegodd Cymorth i Ferched Cymru bryder ynghylch datblygu gwasanaethau a chonsortia rhanbarthol, gan nodi y gallai hynny fygwth arbenigedd mewn sefydliadau llai o faint.
- Mae iaith y ddogfen yn tueddu i adlewyrchu dull traddodiadol o ariannu, adolygu a monitro, nad yw'n dangos sut y bydd arloesi'n cael ei hybu'n weithredol yn y fframwaith, ee y defnydd o gyllid ar gyfer prosiectau peilot.
- Nid yw'r adran ynghylch 'Cymorth ar Alw' (tud. 38) yn esbonio beth yw cymorth o'r fath, ac nid yw chwaith yn dangos dealltwriaeth lawn o'r cysyniad. Er enghraifft, mae angen dealltwriaeth o alw diangen y gellir ei osgoi a achosir gan fethiant i ddarparu'r ymateb cywir y tro cyntaf. Yn ogystal, mae angen dealltwriaeth o alw cudd a dulliau o'i adnabod. At hynny, dywedodd un ymatebydd y gallai geiriad y canllawiau ddileu a chreu rhwystrau i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed. Mae'n bosibl na fyddent yn barod i chwilio am gymorth neu na fyddent yn cydnabod neu'n derbyn bod angen cymorth arnynt, neu mae'n bosibl y byddai rhwystrau eraill yn eu hatal rhag gwneud hynny, nes eu bod yn wynebu argyfwng.
- Roedd awdurdodau lleol yn teimlo bod y canllawiau'n ddigon hyblyg i annog arloesi ond y byddai llai o fonitro o'r canol yn hwyluso hynny ymhellach.

**Sylwadau a gafwyd yn y digwyddiad ymgynghori**

- Mae angen cofio y gallwch fod yn arloesol, ond mae angen i Lywodraeth Cymru gydnabod achosion lle mae hynny wedi digwydd oherwydd gallai'r deilliannau fod yn wahanol.
- Byddai llai o fonitro gan Lywodraeth Cymru yn ddymunol – mae monitro yn atal arloesi.

5. **Ydych chi'n cytuno bod y Canllawiau drafft yn cryfhau trefniadau llywodraethu Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol (ee Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol)? Os nad ydych, eglurwch pam.**

O'r ymatebion a ddaeth i law cafwyd ymateb cadarnhaol gan 32 o bobl, cafwyd ymateb negyddol gan 3, a nododd 1 'Ydw' a 'Nac ydw'.




Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau drafft yn cryfhau trefniadau llywodraethu'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, ond roedd angen mwy o eglurder ynghylch y cysylltiadau rhwng y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Nodwyd bod monitro effeithiolrwydd y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn bryder, ynghyd â'r systemau yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn gweithredu fel y dylent.

Dyma'r prif sylwadau/awgrymiadau ynghylch gwella a gafwyd:

- Mae angen eglurder ynghylch sut y mae'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn cyd-fynd â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn benodol yng nghyswllt gwaith adrodd a gwneud penderfyniadau.
- Byddai'n ddefnyddiol deall sut y bydd y trefniadau llywodraethu hyn yn cyd-fynd â chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio llywodraeth leol, ac yn benodol y trefniadau llywodraethu ar gyfer cydweithredu rhanbarthol drwy Gydbwyllgorau Llywodraethu.
- Mae sicrhau cynrychiolaeth i ddarparwyr yng nghyswllt y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn gofyn am lywodraethu pellach er mwyn sicrhau bod safbwyntiau pob darparwr yn cael eu bwydo i mewn i'r system. Awgrymwyd y byddai taenlen sy'n mynd o amgylch pawb yn sicrhau tryloywder ac yn sicrhau bod pob darparwr sydd am gyfrannu'n cael cyfle i ddweud ei ddweud.
- Gofynnwyd am fwy o bwyslais ar rôl Llywodraethu o safbwynt mynd i'r afael â risg a lliniaru risg. Er enghraifft, gweler y trefniadau llywodraethu sydd ar waith ar gyfer cymdeithasau tai ledled Cymru.
- Cafwyd nifer o sylwadau ynghylch aelodaeth y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, ee dylid cynnwys cyfeiriad penodol at Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, mae cysondeb aelodaeth Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn parhau'n bryder, amlder cyfarfodydd, cofnodion presenoldeb (sy'n rhy brin) a throsiant aelodau, y graddau y caiff rhai sectorau eu cynnwys, yn ogystal â gwybodaeth drylwyr am rai o'r materion er mwyn hwyluso cyfraniadau gwybodus.
- Ceir amwysedd o hyd ynghylch rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, y Tîm Cefnogi Pobl a Grwpiau Cynllunio Lleol.
- Mae'r canllawiau yn mynnu'n awr bod y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn cyhoeddi negeseuon allweddol pob cyfarfod (3.17.4) yn ogystal â'r cofnodion y mae'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn eu cyhoeddi'n barod. Teimlid y

byddai hynny yn cynyddu'r costau a briodolir i waith cyfieithu i'r Gymraeg, er mwyn dyblygu gwybodaeth sydd eisoes wedi'i chynnwys a'i chyhoeddi yn y cofnodion.


- Gellid cynnwys mwy o fanylion am weithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol.
- Mae angen i Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol fod yn fwy strategol. Ceir pryder y bydd cynnwys y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol mewn gwaith rheoli gweithredol yn gwanhau'r ffocws strategol.
- Mae'r cysylltiad rhwng y Cynllun Datblygu Strategol Rhanbarthol (y mae'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn gyfrifol amdano) a'r blaenoriaethau strategol a nodwyd (y mae'r Grwpiau Cynllunio Lleol yn gyfrifol amdanynt) yn dal yn amwys.
- Dylid ystyried sut y caiff Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ei hyrwyddo gan ddarparwyr Cefnogi Pobl a'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael cymorth i ymgysylltu â gwaith llywodraethu'r gwasanaethau a gomisiynir gan Cefnogi Pobl.
- Cafwyd sylwadau gan sawl ymatebydd ynghylch y diffyg rôl lywodraethu / cynllunio gwasanaethau y gall y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ymgymryd â hi, o gofio bod arian Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn cael ei ddyfarnu i'w weinyddu gan bob awdurdod lleol yn hytrach na'r rhanbarth.
- Nododd y Comisiynydd Pobl Hŷn, yng nghyswllt rôl y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol o safbwynt cynnwys defnyddwyr gwasanaeth ar y Bwrdd (adrannau 2.3.1 a 3.13.2), y dylai ymgysylltu â phobl hŷn fod yn rhywbeth "a ddisgwylir" yn hytrach nag yn rhywbeth a gaiff ei "annog" yn unig. Dylai'r ymgysylltu fod yn ystyrlon a dylai darparwyr Cefnogi Pobl ac awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn gwneud mwy nag ymddangos yn unig fel pe baent yn rhyngweithio â phobl hŷn, a sicrhau yn hytrach eu bod yn annog pobl hŷn yn weithredol i gymryd rhan, eu bod yn mabwysiadu dull gweithredu cynhwysol a'u bod yn dangos parodrwydd i newid o ganlyniad i ddysgu drwy ymgysylltu.

**Sylwadau a gafwyd yn y digwyddiad ymgynghori**

- Mae mwy o gydweithredu yn beth cadarnhaol.
- Nid oes dim yn y canllawiau i awgrymu ei bod yn fwriad symud i gyllidebau rhanbarthol/adnoddau cyfun.

### 6. A yw'r cyswllt rhwng comisiynu gwasanaethau Cefnogi Pobl a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn eglur? Rhowch reswm dros eich ateb.

O'r ymatebion a ddaeth i law cafwyd ymateb cadarnhaol gan 34 o bobl, cafwyd ymateb negyddol gan 1, a nododd 4 'Ydy' a 'Nac ydy'.




Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau'n darparu cyswllt eglur rhwng gwaith comisiynu Cefnogi Pobl a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd rhai'n teimlo nad oedd yr holl ddeddfwriaeth berthnasol wedi cael ei chynnwys yn

ddigonol ac roedd eraill yn pryderu bod blaenoriaethau'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhy eang erbyn hyn a bod perygl i'r rhaglen gael ei gorymestyn.

Dyma'r prif sylwadau a gafwyd:

- Gofynnwyd am fwy o gyswllt neu bwyslais yn ymwneud â'r meysydd canlynol:
  - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.
  - Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014.
  - Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.
  - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig yng nghyswllt anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol a'r ffocws ar gydraddoldebau newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf 2015.
  - Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru a'r Cynlluniau Heneiddio'n Dda lleol.
  - Ysgogwyr polisi newydd ar gyfer cydraddoldeb, a dulliau seiliedig ar hawliau o ymdrin â gwasanaethau cyhoeddus.
  - Cysylltiadau rhwng Cefnogi Pobl a grwpiau trechu tlodi eraill.
  - Yr angen am fwy o alinio â'r grant digartrefedd. Rhaid i waith comisiynu gael ei alinio â strategaethau digartrefedd lleol.
  - Cyfeiriadau mwy cadarn ym mhob rhan o'r canllawiau at wasanaethau iechyd ledled Cymru ac at ddeddfwriaeth ynghylch gwasanaethau iechyd.
  - Cyfeiriad at ddeddfwriaeth ynghylch grwpiau o gleientiaid sydd â nodweddion gwarchodedig, ee Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ac ati.
  - Diogelu hawliau dynol pobl. Mae'r hawl i barch at fywyd preifat a theuluol unigolyn, ei gartref a'i ohebiaeth (Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol) yn arbennig o berthnasol i'r Rhaglen Cefnogi Pobl.
  - Effaith diwygio lles a datblygiadau eraill, ee y cap Lwfans Tai Lleol, yr Adolygiad Llety â Chymorth, Credyd Cynhwysol.
  - Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a'r denantiaeth â chymorth, a rôl Cefnogi Pobl o safbwynt gweithio gyda landlordiaid/partneriaid ar eithriadau ac estyniadau i denantiaethau.
  - Polisi wedi'i ddatganoli ynghylch Eiriolaeth Annibynnol.
  - Argymhellodd y Comisiynydd Pobl Hŷn y dylid cyfeirio at ei ganllawiau ynghylch Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol, er mwyn sicrhau dealltwriaeth well o bobl fel unigolion.
  - Canllawiau ynghylch alinio Cefnogi Pobl â rhaglenni trechu tlodi eraill, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cymunedau yn Gyntaf, oherwydd weithiau disgwylir i Cefnogi Pobl gynnig cymorth ar draws amryw feysydd – o iechyd i faterion yn ymwneud â lles, a'r gwasanaeth prawf.


- Nododd sawl ymatebydd nad oes fawr ddim sôn am y Rhaglen Cefnogi Pobl yn yr amryw ddarnau o ddeddfwriaeth, er ei bod yn ymddangos bod y rhaglen yn ganolog i bob un ohonynt, ond bod disgwyl o hyd i'r rhaglen gyflawni ar sail y darnau hynny o ddeddfwriaeth, ee y Ddeddf Tai, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae angen egluro prif ffocws gwirioneddol y Rhaglen Cefnogi Pobl. Ar hyn o bryd, mae nodau ac amcanion y rhaglen yn rhy eang, ee atal digartrefedd, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gofal cymdeithasol, iechyd, cyfiawnder troseddol, trechu tlodi ac ati. Roedd pryderon bod perygl i'r Rhaglen Cefnogi Pobl gael ei gorymestyn a'i gwanhau oherwydd bod modd disgwyl iddi ymateb i amryw broblemau a grwpiau.

**Sylwadau a gafwyd yn y digwyddiad ymgynghori**

- A allwn wneud yn siŵr mai iaith Cefnogi Pobl a ddefnyddir yn hytrach nag iaith iechyd ("gofal iechyd darbodus")?
- Gallai'r canllawiau gynnwys cysylltiadau gwell ynghyd ag arfer da'n ymwneud â chamau y mae awdurdodau lleol eraill wedi'u cymryd.

## 7. A yw rôl rhanddeiliaid yn eglur? Os nad ydyw, pam?

O'r ymatebion a ddaeth i law cafwyd ymateb cadarnhaol gan 34 o bobl, cafwyd ymateb negyddol gan 5, a nododd 1 'Ydy' a 'Nac ydy'.





Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau'n eglur ynghylch rôl rhanddeiliaid ond y gallent gael eu cryfhau. Dyma'r prif sylwadau/awgrymiadau ynghylch gwella a gafwyd:

- Byddai'n braf cael canllawiau pellach ynghylch sut y byddai cydweithio a chydgomisiynu'n cael eu hannog, eu monitro a'u gweithredu.
- Mae angen canllawiau ynghylch sut i ddangos tystiolaeth bod y galw ar wasanaethau eraill yn lleihau (1.4.2).
- Ni ddylai'r broses o gynnwys defnyddwyr gwasanaeth fod yn un a ddiffinnir gan ddim byd mwy na'r graddau y caiff defnyddwyr gwasanaeth eu cynnwys yn ystod gwahanol gamau'r gwaith o ddarparu a dylunio gwasanaethau. Dylai Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol gael yr hyblygrwydd i ddangos sut y rhoddir cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth gael eu cynnwys a sut y mae'r cyfleoedd hynny wedi dod i fod.
- O safbwynt datgomisiynu dylai rhanddeiliaid gael cyfle i ddweud eu dweud, felly dylid eu hysbysu cyn bod penderfyniad terfynol yn cael ei wneud, er mwyn eu galluogi i gyfrannu i'r sgwrs.
- Mae rôl y rhanddeiliad fel pe bai'n ymddangos mewn gwahanol benodau o'r ddogfen. Byddai'n haws darllen a deall y ddogfen pe bai rôl y rhanddeiliad yn cael ei chynnwys mewn un adran yn unig.
- Awgrymwyd y dylid ehangu aelodaeth rhanddeiliaid er mwyn ymgorffori rôl defnyddwyr gwasanaeth ymhellach. Yn benodol, dylai defnyddwyr gwasanaeth gael rôl fwy helaeth i'w chyflawni ym mhrosesau llywodraethu a chomisiynu gwasanaethau Cefnogi Pobl.
- Nid yw'r fframwaith yn ei gwneud yn bosibl i ddigon o gydgynhyrchu ddigwydd; dan y trefniadau ar gyfer cynrychiolwyr byddai'n help pe bai ymarfer mapio'n cael ei gyflawni er mwyn egluro pwy sy'n cynrychioli pwy a beth a ddisgwylir ganddynt.
- Mae angen digon o adnoddau ac mae angen datblygu gwaith cydgynhyrchu gyda phob rhanddeiliad – a ddylid cynnwys hynny yn rôl y Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol?

- Mae angen eglurder ynghylch ariannu gwaith ymgysylltu sy’n ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid, ee mae’n bosibl y bydd angen cymorth a hyfforddiant ar ddefnyddwyr gwasanaeth i ymgymryd â rôl weithredol mewn adolygiadau gwasanaeth a gwaith ailfodelu neu ailgomisiynu. At hynny, mae’n bosibl y bydd angen rhywfaint o gyllid ar gyfer digwyddiadau, teithio a chymorth. Mae angen egluro pwy y disgwylir iddynt ariannu’r gweithgareddau dan sylw, oherwydd fel arall mae’n bosibl na fydd modd eu cyflawni.
- Gallai rôl rhanddeiliaid eraill gael ei chryfhau, ee ym maes iechyd a’r gwasanaeth prawf.
- Awgrymwyd y gallai rôl y fforymau darparwyr rhanbarthol gael sylw mewn adran ar wahân yn y canllawiau ac y gallai rôl cynrychiolwyr darparwyr y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol gael ei chynnwys yn yr adran honno.
- Argymhellodd Cymorth i Ferched Cymru y dylai gwaith ymgysylltu’r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol â rhanddeiliaid gynnwys ymgysylltu â’r strwythurau rhanbarthol a lleol newydd a ddatblygir yng nghyswllt trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a fyddai’n cynnwys sicrhau cysylltiadau cryf â byrddau strategol sy’n ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Argymhellwyd y dylai’r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol sicrhau bod eu systemau ymgysylltu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cyhoeddi ar eu tudalennau ar y we er mwyn sicrhau eu bod yn cael llawer o gyhoeddusrwydd.
- Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i aelodaeth Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, a theimlid bod diffyg cydbwysedd rhwng “swyddogion statudol” a phobl a oedd wedi cael profiadau uniongyrchol. Dylid sicrhau bod modd i ddefnyddwyr gwasanaeth/pobl gyffredin fod yn aelodau o’r Bwrdd hwn, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill megis cyflenwyr, gweithwyr Cefnogi Pobl, rhywun sy’n cynrychioli’r maes Atal Tlodi a Thrais Domestig.
- O safbwynt aelodaeth Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, nid yw’r canllawiau yn cyfeirio at gynrychiolwyr y sector gwirfoddol.
- Bydd angen cryfhau gallu rhanddeiliaid lleol i ddylanwadu ar fentrau rhanbarthol.
- Dywedodd un o’r ymatebwyr ei bod yn aml yn anodd cynnal mewnbwn gweithredol cadarnhaol gan randdeiliaid. Mae’r sawl sy’n cyflawni swyddi’n newid yn aml, mae atebolrwydd yn symud o’r naill unigolyn i’r llall mewn grwpiau rhanddeiliaid, a chaiff y budd a geir o gydweithrediad rhanddeiliaid ei golli.

**8. A oes adrannau o’r Canllawiau drafft y gellid eu cryfhau neu’u gwneud yn haws i’w defnyddio? Rhowch reswm dros eich ateb.**

O’r ymatebion a ddaeth i law, cafwyd ymateb cadarnhaol gan 27 o bobl a chafwyd ymateb negyddol gan 10.



Dyma'r prif awgrymiadau ynghylch gwella a gafwyd:

- Byddai'n braf pe bai canllaw hawdd ei ddarllen neu ganllaw addas i bobl ifanc ar gael.
- Mae angen mwy o eglurder ynghylch beth yw gwasanaeth cymorth 'arbenigol' a beth yw gwasanaeth cymorth 'cyffredinol'.
- Mae angen egluro sut y bydd gwasanaethau a ariennir gan Cefnogi Pobl yn adnabod yr adeg pan ddaw'r bygythiad o ddigartrefedd i fod a'r adeg pan ddaw'r ddyletswydd o ran digartrefedd i ben, os yw'n ddyletswydd i'r awdurdod lleol.
- Mae angen eglurder ynghylch adfachu ar sail unedau gwag; mae gwahanol awdurdodau lleol yn gweithredu'n wahanol – a ellid cael arweiniad ynghylch y maes hwn, hy beth fyddai'n cael ei ystyried yn esboniad rhesymol?
- Mae angen rhagor o fanylion am yr hyn y dylai diweddariad blynyddol yr awdurdod lleol a'r diweddariad blynyddol rhanbarthol ei gynnwys. Mae'r canllawiau yn cynnwys penawdau adrannau ar gyfer diweddariad blynyddol yr awdurdod lleol, ond nid ydynt yn nodi beth a ddisgwylir yn yr adrannau.
- Mynegodd un o'r ymatebwyr bryder ynghylch y pwyslais a roddir ar rôl defnyddwyr gwasanaeth a sut y gallant neu y byddent yn dymuno cael eu cynnwys mewn meysydd megis comisiynu gwasanaethau. Mae gwaith ymgysylltu gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn hanfodol ond mae angen iddo fod yn gymesur â threfniadau'r Rhaglen, oherwydd mae angen ystyried faint o amser y mae'n ei gymryd i gynnwys yr ymgysylltu hwn yn barhaus ym mhob proses gwneud penderfyniadau a sut y caiff y gwaith hwnnw ei gyflawni (hy dylai gael ei gyflawni drwy waith gwerthuso ac ymwneud â darparwyr yn ogystal â thrwy weithgareddau ymgynghori uniongyrchol/wyneb yn wyneb).
- Mae angen canllawiau ynghylch ble y caiff gwasanaethau eu cydgomisiynu a beth yw'r trefniadau. Awgrymwyd, yn achos gwasanaethau a gydgomisiynir, y gellid monitro, adolygu'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau a chynnal adolygiadau cost ar y cyd.
- Byddai'n ddefnyddiol cael copi o'r strwythur hierarchaeth ar gyfer pob cyfarfod a gynhelir, diben y cyfarfod a phwy sy'n ymwneud ag ef, a braslun o'r broses gwneud penderfyniadau yn y cyfarfodydd hynny.
- Mae angen eglurder ynghylch gwaith comisiynu a chaffael. Dywedodd un o'r ymatebwyr fod y canllawiau ar hyn o bryd yn rhoi gobaith gwag i ddarparwyr na fydd gwasanaethau'n cael eu gosod ar dendr fel mater o drefn, ond ei bod yn bosibl y byddai'n rhaid i hynny ddigwydd o gofio Rheolau Gweithdrefnau Contractau.
- Mae angen i ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch gweithredu'n rhanbarthol, cydweithredu a gweithio ar sail consortia gael eu hesbonio'n llawnach.
- Pan fydd y canllawiau wedi'u cyhoeddi, dylid llunio dogfen gryno sy'n amlinellu'r newidiadau a dylid ei dosbarthu i ddarparwyr cyfredol**.**
- Argymhellodd Cymorth i Ferched Cymru y dylid cryfhau cysylltiadau'r canllawiau â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac amcanion y Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yn benodol yn adran 4.7. Mae'r elusen yn mynegi pryder ynghylch y cyfeiriad at y ffaith bod gwasanaethau cymorth o ran llety a gwasanaethau cymorth eraill ar gyfer camdriniaeth ddomestig yn opsiynau costus, ac at yr awgrym y gellid defnyddio dulliau caledu targedau lle bo modd i leihau'r galw ar y gwasanaethau dan sylw. Dywed yr elusen fod y wybodaeth hon yn anghywir ac y gallai beryglu bywydau.
- Mae angen egluro'r rhesymeg a'r fformat ar gyfer adroddiadau chwarterol awdurdodau lleol i Gydlynwyr Datblygu Rhanbarthol (tud. 26, 3.16.2).

- Mae angen mwy o eglurder yn awr ynghylch rôl yr Ymarfer Mapio Anghenion yng nghyd-destun y canllawiau newydd, os bwriedir iddo fod yn ffynhonnell ystyrlon o ddata.
- Os bwriedir darparu'r Grant Digartrefedd a Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl mewn modd mor gydweithredol, gofynnwyd a oes potensial i gyfuno'r ffrydiau cyllido drwy lunio canllawiau sydd mewn un ddogfen (tud. 36).
- Mae angen eglurder ynghylch taliadau rheoli oherwydd yr unig beth a nodir amdanynt yw bod angen iddynt fod 'mor isel â phosibl'. Byddai un o'r ymatebwyr yn croesawu diffiniad o'r pwynt hwn, oherwydd teimlid y gellid ystyried ei fod yn mynd yn groes i'r dull a ffefrir ar gyfer ymdrin â lles staff, lle sonnir am hyfforddiant, datblygiad proffesiynol parhaus a pharch at y proffesiwn.
- Dylai mynediad i Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol gael ei hyrwyddo er mwyn helpu i sicrhau bod pob defnyddiwr gwasanaeth, gan gynnwys y rhai mwyaf anodd eu cyrraedd, yn cael cyfle i fynegi barn.
- Gellid gwella'r canllawiau drwy sôn yn benodol am gyfathrebu â fforymau pobl hŷn, gofalwyr, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a phobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol (3.17).
- Mae cydraddoldeb yn faes gwan yn y ddogfen, sy'n canolbwyntio ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae hynny'n wir hefyd am Ddeddf yr Iaith Gymraeg a Safonau'r Gymraeg. Mae angen adran ar wahân ar gydraddoldeb er mwyn dod ag amryw feysydd a materion ynghyd.
- Byddai canllawiau gwell ynghylch darparu gwasanaethau cymorth emosiynol yn ddefnyddiol o safbwynt y trefniadau comisiynu ar gyfer cam-drin domestig.
- Nid oes unrhyw gyfeiriad at y lefel y dylai meincnodau prisio gael eu pennu arni. Os bwriedir sicrhau cysondeb, mae angen cyfeirio at y lefel honno neu mae angen nodi pryd y bydd adolygiad yn cael ei gynnal fel bod modd parhau i ddefnyddio meincnodau a bennwyd yn flaenorol.

**Sylwadau a gafwyd yn y digwyddiad ymgynghori**

- Y Cynllun Comisiynu Lleol – credid bod y cynllun hwn wedi'i hepgor erbyn hyn a bod diweddariad blynyddol yr awdurdod lleol wedi cymryd ei le.

**9. Hoffem wybod eich barn am yr effaith y gallai adolygu'r canllawiau ei chael ar y Gymraeg, ac yn arbennig ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Eglurwch hefyd sut y credwch y gellid llunio neu addasu'r canllawiau diwygiedig fel eu bod yn cael effaith gadarnhaol neu fwy o effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac fel nad ydynt yn cael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Ychydig o ymateb a gafwyd i'r cwestiynau hyn yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd mwyafrif y sawl a ymatebodd iddynt yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn newis iaith yr unigolyn, yn enwedig wrth gynorthwyo pobl agored i niwed sydd ag anghenion cymhleth. Ar y llaw arall, roedd rhai'n teimlo y gellid gwella'r canllawiau er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau o ran y Gymraeg yn cael eu cynnwys.

Mae'r prif sylwadau a gafwyd wedi'u crynhoi isod:

- Byddai'n braf gweld fersiwn ddwyieithog o'r cynllun cymorth a'r deilliannau.
- Byddai rhywun yn tybio ei bod yn amod tendro bod pob darparwr yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg neu'n gweithio tuag at gydymffurfio â nhw.
- Mewn ardaloedd / rhanbarth lle mae defnydd o'r Gymraeg yn llai cyffredin, bydd darparu gwasanaeth yn Gymraeg yn anos / yn fwy costus.
- Yn ogystal, rhaid ystyried yr angen i ddiwallu anghenion unigolion a chymunedau lleiafrifoedd ethnig o ran iaith, a helpu i oresgyn rhwystrau diwylliannol eraill y mae'r bobl hynny'n eu hwynebu.
- Awgrymwyd bod angen i ddogfennau tendro nodi'n glir bwysigrwydd darparu gwasanaethau Cymraeg i'r sawl sy'n dymuno eu cael.
- Mae'n amlwg bod problem yn bodoli ynghylch sut y mae'r dyletswyddau statudol a osodwyd ar awdurdodau lleol/comisiynwyr yn effeithio ar y gofynion y mae'n rhaid i ddarparwyr eu cyflawni a chost gysylltiedig darparu gwasanaeth dwyieithog.
- Dylid nodi'r galw am wasanaethau Cymraeg mewn prosesau cynllunio strategol rhanbarthol ac asesu anghenion, a dylai unrhyw gostau ychwanegol gael eu cydnabod yn y broses gomisiynu a'u darparu yn rhan o'r setliad cyllid i ddarparwyr.
- Mae angen i'r Cynnig Rhagweithiol gael ei wreiddio'n gadarn yn y canllawiau hyn, ac mae angen i gymorth ar gyfer sefydliadau a gomisiynir gan yr awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau Cefnogi Pobl gael ei ystyried mewn unrhyw broses gomisiynu.
- Mae'r adolygiad yn gyfle i sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ategol wedi cael eu dylunio i fod yn wirioneddol ddwyieithog o'r dechrau. Dylid gofyn am gyngor ynghylch arfer da o ran dylunio, ee mae cael y Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr â'i gilydd yn galluogi dysgwr i geisio llenwi'r ffurflen yn Gymraeg a throi at y Saesneg am gymorth fel y bo angen.
- Cafodd pryder ei fynegi ynghylch cost gwasanaethau cyfieithu i ddarparwyr. Mae'n bosibl y bydd sefydliadau darparwyr yn ei chael yn anodd bodloni disgwyliadau ynghylch darparu gwasanaethau Cymraeg oni bai eu bod yn cael rhywfaint o arweiniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch dulliau cydweithredol o weithio ac ati.
- Mae ar ddarparwyr angen eglurder ynghylch effaith a pherthnasedd Safonau'r Gymraeg i fudiadau'r trydydd sector.
- Nododd rhai o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw sôn am y Gymraeg nac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol yn y canllawiau, ac mai ychydig o dystiolaeth oedd yn y ddogfen i ddangos bod y Gymraeg wedi'i hystyried yn ystod y cyfnod drafftio.
- Mae Safonau'r Gymraeg yn nodi bod angen i'r Gymraeg gael ei hystyried ym mhob agwedd ar fusnes y Llywodraeth – wrth ymgynghori, wrth gyflawni gwaith ymchwil ac wrth lunio polisïau. Dylai fod adran sy'n amlinellu bwriadau Llywodraeth Cymru o ran sut y byddai'r canllawiau newydd hyn yn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Dylai adran ar wahân gael ei chynnwys mewn adran fwy o faint am gydraddoldebau, a ddylai ymdrin â Deddf yr Iaith Gymraeg, Safonau'r Gymraeg a sut y mae'r canllawiau yn hyrwyddo'r maes polisi hwn.
- Byddai'n ddefnyddiol pe bai cytundeb cyllid grant/contract safonol yn cael ei roi i dimau Cefnogi Pobl lleol, lle caiff yr angen i ddarparu gwasanaethau Cymraeg (fel y bo'n briodol) ei nodi'n amod.

**Sylwadau a gafwyd yn y digwyddiad ymgynghori**

- Sut y caiff hynny ei drosglwyddo i ddarparwyr nad oes dyletswydd statudol arnynt?
- Mae'r maes hwn yn ehangach o lawer na'r Gymraeg/Saesneg yn unig. Beth am ieithoedd eraill sy'n fwy cyffredin o lawer mewn rhai ardaloedd, yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir llawer o geiswyr lloches?

**10. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y canllawiau drafft?**

Dyma'r prif sylwadau/awgrymiadau a gafwyd nad ydynt wedi'u cynnwys eisoes mewn adran arall:

- Byddai'n ddefnyddiol pe bai effaith diwygio lles ar ddarparwyr Cefnogi Pobl yn cael ei chydnabod yn fwy helaeth (1.7.1).
- Ar hyn o bryd mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn canolbwyntio llawer ar allbynnau a deilliannau. Argymhellwyd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar effeithiau (ee effaith y Rhaglen ar gynlluniau a chyllidebau trawsgomisiynu) ac y dylai hynny gael ei gyfuno â datblygu cyfres o fesuriadau effaith, sy'n cynnwys pecynnau cymorth sy'n cynnig dull o fesur y budd cymdeithasol a geir o fuddsoddi.
- Dilysu data: A ellid cael canllawiau ynghylch y maes hwn er mwyn hybu cysondeb ar draws ardaloedd rhanbarthol?
- Mae adran 4.7, dan y pennawd 'Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant', yn rhestru gwasanaethau iechyd meddwl, iechyd corfforol a chyffuriau ac alcohol. Dylai'r rhestr gynnwys anableddau dysgu hefyd.
- Mae adran 4.11.6, dan y pennawd 'Rôl y Darparwr', yn cynnwys y pwynt bwled canlynol: 'Hysbysu'r awdurdod lleol lle gwneir gwargedion ar gontractau.' Nid oes unrhyw bwynt bwled cyfatebol ar gyfer hysbysu ynghylch unrhyw golled a wneir oherwydd newidiadau'n ymwneud â ffactorau allanol eraill, megis cynyddu'r cyflog byw. Teimlid bod hynny'n golygu bod perthynas anghyfartal rhwng comisiynwyr a darparwyr gwasanaeth.
- Mae angen ystyried cynnwys datganiad ar gyfer cleientiaid, sy'n archwilio'r risg y gallai digartrefedd ddigwydd eto ar ôl chwe mis. Byddai hynny'n cynnig dealltwriaeth well o ba mor hirdymor y mae atebion i broblemau tai mewn gwirionedd, a gallai gynnig cyfle i gynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Mae angen canllawiau cliriach ynghylch y ffaith bod gofyn i ddarparwyr gydymffurfio â rheoliadau'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, a ddiffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000. Ar hyn o bryd, mae hynny'n rhwystr mawr sy'n atal darparwyr bach rhag ymwneud ag agweddau ar reolaeth ariannol.
- Mae angen cyfeirio at y ffaith bod gofyn i ddarparwyr gwasanaeth gydymffurfio â gofynion Rhentu Doeth Cymru, yn enwedig wrth ymdrin â landlordiaid yn y sector preifat.
- Byddai'n braf pe bai aelodaeth Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl yn cynnwys uwch-swyddog o faes gwasanaethau iechyd, ac nid Iechyd Cyhoeddus Cymru yn unig.
- Cyfeirir ym mhob rhan o'r canllawiau at gomisiynwyr yn defnyddio data ac ystadegau ynghylch digartrefedd i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd Llamau yn teimlo nad yw'r ystadegau swyddogol yn adlewyrchu'r darlun gwirioneddol, yn enwedig o safbwynt digartrefedd ymhlith pobl ifanc, a'u bod yn cynnig darlun cyfyngedig iawn o wir faint y broblem.
- Gwasanaethau tymor hwy: Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r canllawiau yn cynnwys arweiniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut i fynd i'r afael â chomisiynu

gwasanaethau tymor hwy yn y dyfodol. Ymddengys fod y canllawiau yn canolbwyntio o hyd ar ymyriadau tymor byrrach i atal digartrefedd.

- Mae angen eglurder ynghylch ymyrryd yn gynnar / atal – Rhaid bod ar unigolyn angen cymorth o ran tai i fod yn gymwys ar gyfer Cefnogi Pobl; os felly pryd y mae atal digartrefedd yn ystyriaeth? Sut y gellir nodi'r angen i ymyrryd yn gynnar, atal digartrefedd, a'r deilliannau llai amlwg sy'n hanfodol er mwyn atal digartrefedd a meithrin gwytnwch pobl?
- O safbwynt adran 1.1.2 – mae angen ystyried prosiectau sy'n ymdrin â phobl sy'n cysgu allan.
- Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol – cyfranogiad/barn defnyddwyr gwasanaeth – ni sonnir am gymorth/adnoddau i'w gwneud yn bosibl i ddarparwyr chwalu rhwystrau er mwyn galluogi unigolion i gymryd rhan mewn modd ystyrlon. Ni chaiff unrhyw ofal plant ei ddarparu fyth ar y safle mewn digwyddiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth – boed yn ddigwyddiadau a drefnir gan Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol neu dimau Cefnogi Pobl lleol.
- Mae angen system TG gynhwysfawr a allai gasglu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn ganolog. Byddai hynny yn lleihau'r baich sy'n gysylltiedig â sefyllfa lle mae 22 o awdurdodau lleol yn casglu'r wybodaeth ac yna'n ei hanfon i'r Llywodraeth.

**Sylwadau clo**

Mae'r ymateb a gafwyd i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol yn gyffredinol. Fodd bynnag, ceir nifer o feysydd allweddol y bydd angen eu hystyried ymhellach cyn y gellir cytuno ar fersiwn derfynol y canllawiau diwygiedig.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi neilltuo amser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn a mynychu'r gweithdy. Mae eich barn yn hanfodol o safbwynt ein helpu i ddatblygu canllawiau a fydd yn cynnig eglurder ac o safbwynt ein helpu i lunio'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn y dyfodol, ac rydym yn ddiolchgar iawn am eich cyfraniadau.